**P-05-758 Cerflun i anrhydeddu Billy Boston**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan CIAC's RFC ar ôl casglu 151 llofnod.

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i anrhydeddu un o arwyr chwaraeon Prydain a Chymru, Billy Boston, gyda cherflun ym Mae Caerdydd.

Cafodd ei eni a'i fagu yn ardal y dociau yng Nghaerdydd ac mae'n hen bryd i'w lwyddiannau ar y maes chwarae gael eu cydnabod gan ei dref enedigol a'i wlad.

Ar ddechrau ei yrfa rygbi, cafodd ei anwybyddu gan glwb ei dref enedigol, Clwb Rygbi Caerdydd, ac o ganlyniad ni wireddwyd ei freuddwyd o chwarae ym Mharc yr Arfau. Wigan wnaeth elwa ar golled Caerdydd a Chymru, ac aeth Billy ymlaen i sgorio 478 cais mewn 487 gêm i'r clwb. Dyma rai o uchafbwyntiau eraill ei yrfa:

- Tair Cwpan Her a theitl Pencampwriaeth RFL ym 1960
- 24 cais mewn 31 gêm ar gyfer Prydain ac roedd yn aelod o'r tîm a enillodd Cwpan y Byd ym 1960

Mae Wigan wedi ei anrhydeddu yn ddiweddar gyda cherflun, a cheir cerflun hefyd yn stadiwm Wembley yn tynnu sylw at ei ddylanwad a'i statws o fewn rygbi'r gynghrair.

Mae Clwb Rygbi CIAC (clwb cyntaf Billy) yn barod i helpu mewn unrhyw ffordd i godi arian ac ati, ac mae gennym chwaraewr ar hyn o bryd sy'n gerflunydd ac a fyddai'n fwy na hapus i fod yn rhan o'r prosiect.

Mae'n bryd cywiro camweddau'r gorffennol, a rhoi i Billy y parch a'r anrhydedd y mae'n eu haeddu gan Gaerdydd a Chymru, a pha well ffordd

o wneud hynny na gyda cerflun yn y rhan o Gaerdydd lle y cafodd ei eni a'i fagu.

## Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gogledd Caerdydd
- Canol De Cymru